# Cylchlythyr / Newsletter

**Tymor y Haf (Hanner Tymor 1) 2023** | Summer Term (Half Term 1) 2023




## Neges Gan y Pennaeth / Message From the Headteacher

Mae hwn wedi bod yn hanner tymor hynod lwyddiannus a chofiadwy arall i'n hysgol fach hyfryd. Roedd ein disgyblion Blwyddyn 5 yn glod llwyr i'r ysgol yn ystod eu taith ddiweddar i Langrannog, roedd yn bleser treulio amser yn eu cwmni. Diolch yn fawr iawn i Mr Hopton a Miss Pash am dreulio'r wythnos gyda'n plant yng ngwersyll yr Urdd.

Mae'n bleser gennyf rannu gyda chi fod Dylan Williams wedi dychwelyd i'r ysgol yn dilyn sawl rownd o driniaeth ar gyfer Lewcemia. Rydyn ni i gyd mor falch ohono ac mae'n wych ei weld yn ôl yn y dosbarth yn chwarae gyda'i ffrindiau.

Mae Caffi'r Cwm yn parhau i fod yn llwyddiant diolch i waith caled Mrs Sellick a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mae wedi bod yn wych gweld cymaint o rieni yn mynychu'r sesiynau ac yn ymarfer eu Cymraeg. Mae hefyd wedi bod yn braf arddangos doniau amrywiol ein disgyblion yn ystod y sesiynau hyn.

Mae ein disgyblion yn y Côr a'r Cân Actol wedi bod yn gweithio'n ddiflino dros yr wythnosau diwethaf i baratoi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yr wythnos nesaf. Rydw i mor falch o bob un disgybl a fydd yn cynrychioli'r ysgol – da iawn bawb.

Llongyfarchiadau mawr i Miss Mackenzie a roddodd enedigaeth i faban hardd ddechrau mis Mai, mae'r ddwy yn gwneud yn dda iawn.

Yn olaf, newyddion trist. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon, byddwn yn ffarwelio â dwy aelod o staff hir sefydlog – Mrs Darch a Mrs Chard. Mae Mrs Darch wedi derbyn swydd yn nes at ei chartref yn Ysgol Gwaelod y Garth ac mae Mrs Chard yn gadael dysgu i weithio mewn cartref preswyl. Dymunwn yn dda i'r ddwy a diolchwn iddynt am eu hymrwymiad i Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod dros nifer o flynyddoedd. Bydd y Corff Llywodraethol yn rhannu ein cynlluniau ar gyfer mis Medi gyda rhieni ar ôl hanner tymor.

Cofiwch y bydd y dydd Llun cyntaf yn ôl yn ddiwrnod HMS felly ni fydd ysgol i ddisgyblion.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus a mwynhewch y gwyliau!

**Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod**
Pennaeth: Mr. Jamie Hallett | Dirprwy Bennaeth: Mr. Aled Hopton
Ffôn: 01443 875528 | E-bost: ygbpa@caerphilly.gov.uk | Trydar: @yggf123

# Cylchlythyr / Newsletter

**Tymor y Haf (Hanner Tymor 1) 2023** | Summer Term (Half Term 1) 2023




## Neges Gan y Pennaeth / Message From the Headteacher

*This has been another really successful and memorable half term for our wonderful little school. Our Year 5 pupils were an absolute credit to the school during their recent trip to Llangrannog, it was a pleasure spending time in their company. A huge thank you to Mr Hopton and Miss Pash for spending the week with our children at the Urdd centre.*

*I am delighted to share with you that Dylan Williams has returned to school following several rounds of treatment for Leukaemia. We are all so proud of him and it's great to see him back in class playing with his friends.*

*Caffi'r Cwm continues to be a success thanks to the hard work of Mrs Sellick and the PTA. It has been great to see so many parents attending the sessions and practising their Welsh. It's also been nice to showcase the various talents of our pupils during these sessions.*

*Our pupils in the Choir and the Cân Actol have been working tirelessly over the past few weeks in preparation for the National Urdd Eisteddfod next week. I am so proud of each and every pupil who will be representing the school – da iawn bawb!*


*A huge congratulations to Miss Mackenzie who gave birth to a beautiful baby at the beginning of May, both are doing really well.*

*Finally, some sad news. At the end of this academic year, we will bid farewell to two long standing members of staff – Mrs Darch and Mrs Chard. Mrs Darch has accepted a post nearer to home in Ysgol Gwaelod y Garth and Mrs Chard is leaving teaching to work at a residential home. We wish them both well and thank them for their commitment to Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod over many years. The Governing Body will share our plans for September with parents after half term.*

*Remember that the first Monday back will be an INSET day so there will be no school for pupils.*

*Thanks for your continuous support and have a great break!*

# Newyddion Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod



## Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Rydyn ni fel ysgol yn hynod o falch o gael y Côr a'r Cân Actol yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri ar ddydd Llun a dydd Mawrth hanner tymor. Mae'r disgyblion wedi bod yn ymarfer dros yr wythnosau ddiwethaf ac yn edrych ymlaen yn arw at gael cystadlu yn erbyn disgyblion ar draws Cymru gyfan. Ymunwch gyda ni wrth i ni ddymuno "Pob lwc!" i'n disgyblion arbennig iawn yma yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod, a fydd yn cynrychioli ein hysgol gyda balchder.

## Gwersyll yr Urdd, Llangrannog

Hoffwn ddiolch o waelod calon i'n holl ddisgyblion a gynrychiolodd yr ysgol mor arbennig o dda yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Roeddent wir yn glod i'r ysgol ac roedd yn hyfryd clywed y straeon andanynt yn cymysgu ac yn adeiladu perthnasau gwerthfawr gyda'u cyfoedion o ysgolion y clwstwr - cam cyntaf pwysig yn y broses o bonio i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni y flwyddyn nesaf. Roedd y disgyblion i gyd yn ddewr ac wedi herio'u hunain a dangos gwytnwch ardderchog - da iawn chi!







## Disgo yr Urdd

Diolch yn fawr iawn i Mrs Sellick a'r tîm am drefnu disgo i ddathlu Urdd Gobaith Cymru. Roedd y disgyblion i gyd wrth eu boddau a chafodd bawb sioc anferth i weld Seren a Sbarc yn ymuno yn y dathlu. Hoffai bawb yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod ddymuno pob hwyl i bawb sy'n mynd i Lanymddyfri yr wythnos nesaf.

Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

# Newyddion
# Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod



## Urdd National Eisteddfod

We as a school are extremely proud to have the Choir and Cân Actol competing in the Urdd National Eisteddfod in Llandovery on Monday and Tuesday of half term. The pupils have been practicing over the last few weeks and are really looking forward to competing against pupils from all over Wales. Join us as we wish "Good luck!" to our very special pupils here at Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod, who will represent our school with pride.

## Urdd Centre, Llangrannog

We would like to thank all our pupils who represented the school so exceptionally well at Llangrannog. They really were a credit to the school and it was lovely to hear the stories about them mixing and building valuable relationships with peers from the cluster schools – an important first step in the process of transitioning to Ysgol Gyfun Cwm Rhymni next year. All the pupils were brave and challenged themselves and showed excellent resilience – well done!






## Urdd Disgo

Many thanks to Mrs Sellick and the team for organizing a disco to celebrate Urdd Gobaith Cymru. The pupils were all delighted and everyone was shocked to see Seren and Sbarc join in the celebration. Everyone at Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod would like to wish everyone going to Llandovery next week the best of luck.

# Y Siarter Iaith

## Ein Targedau Siarter Iaith / Our Siarter Iaith Targets

| | |
|---|---|
| Targed 1<br>Target 1 | Siarad mwy o Gymraeg tu allan i'r ysgol<br>*Use more Welsh outside of school* |
| Targed 2<br>Target 2 | Gwrando ar fwy o gerddoriaeth Cymraeg<br>*Listen to more Welsh music* |
| Targed 3<br>Target 3 | Gwylio mwy o raglenni Cymraeg<br>*Watch more Welsh programmes* |
| Targed 4<br>Target 4 | Siarad mwy o Gymraeg ar yr iard ac yn y coridorau<br>*Speak more Welsh on the yard and in the corridors* |
| Targed 5<br>Target 5 | Defnyddio apiau a thechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg<br>*Use more Welsh apps and technology* |

## Y Gornel Ddysgu / The Learning Corner

Hello! - Shwmae!
Good morning - Bore da
Good afternoon - Prynhawn da
Good evening - Noswaith dda
Good night - Nos da
How are you? - Sut wyt ti?
May I have...? - Ga i...?



## Ein Pigion Cerddorol / Our Musical Playlist

Calon (Diffiniad)
Paid â Bod Ofn (Eden)
Ni Fydd y Wal (Yws Gwynedd)
Cwîn (Gwilym)

## Ap y mis

Duolingo

Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

# Her Seren a Sbarc

Dyma **'Her Seren a Sbarc'** mis **Mehefin**. Cofiwch i drydaru eich ymdrechion ar Trydar a chynnwys @yggf123 gyda'r hashnod #siarteriaithyggf

*Here is the '**Her Seren a Sbarc (Seren & Sbarc Challenge)** for the month of **Mehefin (June)**. Please remember to tag us on Twitter in your efforts, please tag @yggf123 and use the hashtag #siarteriaithyggf*

**Gwyliwch 'Stwnsh Sadwrn'**
Watch 'Stwnsh Sadwrn




**Gofynnwch "Sut wyt ti?" i'ch ffrind**
Ask your friend 'Sut Wyt ti?'




**Canwch gân "Hei Mr Urdd"**
Sing along to "Hei Mr Urdd"





**Dawnsiwch i gân "Paid a bod ofn" gan Eden**
Dance along to "Paid a bod ofn" by Eden





Chwaraewch gêm "Y Gemau Gwyllt" ar Stwnsh
**Play the "Gemau Gwyllt" game on Stwnsh**




**Ewch am dro i ffeindio pethau gwyrdd** / *Go for a walk to find green things*





Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

YSGOL GYMRAEG GILFACH FARGOD – CENEDL HEB IAITH CENEDL HEB GALON

# Newyddion Dosbarth
# Class News




## Dosbarth Branwen
*Meithrin/Derbyn / Nursery/Reception*

**Rydyn ni wedi bod yn brysur iawn yn Nosbarth Branwen yn efelychu cerddoriaeth Camille Saint Saens a chelf Steven Brown, ac ymateb yn greadigol trwy greu dawns a stori. Daeth ein rhieni i wylio ein sioe diwedd tymor, a braf oedd gweld y neuadd yn llawn ar gyfer ein perfformiad. Mwynhewch yr hanner tymor!**

*We've been very busy in Dosbarth Branwen, emulating the music of Camille Saint Saens and the art of Steven Brown, and have responded creatively through creating our own dance and writing our own story. Our parents came to watch our end of term show and it was wonderful to see the hall so full for our performance. Enjoy the half term!*




## Dosbarth Dwynwen
*Blwyddyn 1/2 / Year 1/2*

**Mae ffrindiau newydd gyda ni yn Nosbarth Dwynwen. Rydyn ni wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn wyau i edrych ar ôl yn y dosbarth. Mae wedi bod yn 21 diwrnod cyffrous a diddorol yn gwylio'r wyau yn datblygu ac o'r diwedd mae'r cywion wedi dechrau deor! Mor belled, mae gennym ni Seren, Sbarc a Dwynwen, ac rydyn ni'n gobeithio gweld mwy dros y diwrnodau nesaf.**

*This term we have had a few extra friends in our class. We have been lucky enough to receive eggs to look after in our class. It has been an exciting and interesting 21 days observing the eggs. Finally. We've had some movement and have welcomed 3 chicks - Seren, Sbarc a Dwynwen.*

# Newyddion Dosbarth
# Class News




## Dosbarth Gelert

*Blwyddyn 3/4 / Year 3/4*

**Rydym wedi cael hanner tymor hyfryd yn datblygu ein sgiliau Celfyddydau Mynegiannol yn Nosbarth Gelert. Rydym wedi astudio Banksy a'i graffiti ac wedi cael ein hysbrydoli gan waith Andy Warhol gyda lliw.**

*We have had a lovely half term developing our Expressive Arts skills in Dosbarth Gelert. We have studied Banksy and his graffiti and taken inspiration from Andy Warhol's work with colour.*




## Dosbarth Bendigeidfran

*Blwyddyn 5/6 / Year 5/6*

**Rydyn ni wedi cael hanner tymor arbennig o dda yn Nosbarth Bendigeidfran. Roedd ein gwersi nofio ni am y tair wythnos gyntaf yn hwylus dros ben. Yn ogystal â hynny, rydyn ni wedi bod yn edrych ar waith Banksy ac yn dysgu am graffiti, a hefyd yn ysgrifennu dyddiaduron a llythyron ffurfiol. Wrth gwrs, roedd taith blwyddyn 5 i Langrannog yn uchafbwynt hefyd!**

*We've had a particularly good half term in the Bendigeidfran Class. Our swimming lessons for the first three weeks were extremely easy. In addition to that, we have been looking at Banksy's work and learning about graffiti, and also writing diaries and formal letters. Of course, the year 5 trip to Llangrannog was also a highlight!*

# Dyddiadau Pwysig
# Important Dates

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event |
|---|---|
| 5/6/23 | **Diwrnod HMS**<br>*INSET Day* |
| 9/6/23 | **Sioe Cyngor Celfyddydau Cymru (Dosbarth Bendigeidfran)**<br>*Arts Council Wales Show (Dosbarth Bendigeidfran)* |
| 18/6/23 | **Sul y Tadau**<br>*Father's Day* |
| 22/6/23 | **Noson Ffilm**<br>*Film Night* |
| 22/6/23 | **Criced 50/50 i Flwyddyn 4**<br>*50/50 Cricket for Year 4* |
| 29/6/23 | **Mabolgampau'r Ysgol**<br>*School Sports Day* |
| 30/6/23 - 2/7/23 | **Taith Bae Caerdydd (Blwyddyn 6)**<br>*Cardiff Bay Trip (Year 6)* |
| 6/7/23 | **Ffair Haf**<br>*Summer Fayre* |
| 10/7/23 | **Mabolgampau'r Clwstwr**<br>*Cluster Sports Day* |
| 11/7/23 | **Diwrnod Pontio Blwyddyn 6 i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni**<br>*Year 6 Transition Day to Ysgol Gyfun Cwm Rhymni* |
| 13/7/23 | **Taith Haf y Babanod**<br>*Infants' Summer Trip* |
| 18/7/23 | **Taith Haf yr Adran Iau**<br>*Junior Department's Summer Trip* |
| 20/7/23 | **Diwrnod Olaf y Tymor**<br>*Last Day of Term* |
| 21/7/23 | **Diwrnod HMS**<br>*INSET Day* |